STRATEGAETH GYFLWYNO AR GYFER THEATRAU A CHANOLFANNAU CELFYDDYDAU YNG NGHYMRU

Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

CREU CYMRU

Yr asiantaeth ddatblygu ar gyfer theatrau a chanolfannau celfyddydau yng Nghymru

EBRILL 2010

1. EIN PERSBECTIF

Yn yr hinsawdd ariannol a gwleidyddol sydd ohoni mae'r Celfyddydau, ynghyd â sectorau eraill, yn wynebu cyfnod o newid mawr wrth i amgylchiadau newydd ein gorfodi i ailasesu ein strwythurau a'n patrymau gwaith presennol.

Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diweddaf, mae'r sector cyflwyno yng Nghymru wedi bod trwy broses adeiladol a datblygiadol o newid sydd wedi ei osod mewn sefyllfa i ymaddasu'n bositif i'r oes newydd, i ymateb i bob her sy'n codi, i gyflawni amcanion LlCC a CCC, ac i gynghori a dylanwadu ar faterion strategol.

Bu sefydlu Creu Cymru, a'r dylanwad sydd ganddo, a chreu cronfa'r Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd yn ganolog i'r datblygiad hwn yng ngalluoedd a photensial y sector. Roeddent yn ddatblygiadau o bwys sydd wedi arwain ar newidiadau pwysig yn y modd y mae'r sector yn gweithio a'i allu i wireddu mentrau strategol.

Mae cronfa'r Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd wedi cefnogi nifer o theatrau a chanolfannau celfyddydau ar wahanol raddfeydd i chwarae rhan weithredol fel cynhyrchwyr a chyd-gynhyrchwyr sy'n gweithio o fewn dialog adeiladol a phartneriaeth gyda chwmnïau cynhyrchu o'r tu fewn a'r tu allan i Gymru. Mae'r awydd i ddatblygu yn y cyfeiriad hwn yn gyffredin i nifer cynyddol o theatrau sydd hyd yma wedi bod yn ganolfannau derbyn yn unig.

Trwy rwydweithiau a chynlluniau Creu Cymru, a gyda chefnogaeth weinyddol a phrofiad proffesiynol ei staff, mae gan bob theatr a chanolfan gelfyddydau gyfle bellach i ymgysylltu'n fwy nag erioed o'r blaen gyda chydweithwyr – gan rannu syniadau a gwybodaeth ynglŷn â chynnyrch teithiol ar draws ffurfiau ar gelfyddyd, cydweithio ar weithgareddau rhaglennu a marchnata ar y cyd ac, fel grwpiau ac unigolion, ymweld â gwyliau a pherfformiadau i ymchwilio ac adrodd yn ôl ar gwmnïau a pherfformiadau.

Mae gan aelodaeth Creu Cymru, ar draws pob graddfa gyflwyno, lefelau o broffesiynoldeb, gwybodaeth a sgiliau y mae'n rhaid eu gweld fel yr adnoddau mwyaf gwerthfawr y gellir manteisio arnynt i roi ffurf i'r strategaethau a'r datblygiadau sydd eu hangen er mwyn pennu cyfeiriad cyflwyno ffurfiau ar gelfyddyd a datblygu cynulleidfaoedd y dyfodol yng Nghymru yn llwyddiannus.

Fodd bynnag, fel y nododd Elan Closs Stephens yn ei hadroddiad, *Papur Sefyllfa ar Theatrau a Chanolfannau Celfyddydau Ledled Cymru*:

"Nid yw'r sector wedi'i ystyried yn bartner strategol i CCC yn y gorffennol, sy'n gallu cynnig trafodaethau ar ffurfiau ar gelfyddyd a chynulleidfaoedd. Er bod CCC wedi cytuno ar strategaethau ffurfiau ar gelfyddyd yn ddiweddar, nid oes cynllun strategol ar gyfer arweiniad curadurol a datblygiad busnes theatrau a chanolfannau celfyddydau, ac nid oes swyddog arweiniol ar gyfer y sector. Mae'r sector bellach yn dymuno ymgysylltu'n llawn â Chyngor y Celfyddydau fel partner strategol i ddatblygu lles cwmnïau a hybu gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd."

Yn awr yw'r cyfle i ddefnyddio'r sgiliau a'r wybodaeth a geir yn y sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu'r celfyddydau perfformio a'u marchnata i bobl Cymru. Rydym yn hyderus, trwy drafodaeth barhaus, wybodus a blaengar rhwng cyllidwyr a'r sector, y gall Strategaeth Gyflwyno effeithiol gael ei gweithredu, ei hadolygu a'i datblygu er budd cynulleidfaoedd ac ymarferwyr.

Tanja Raman (ffotograff: John Collingswood)

a) Rhwydwaith cenedlaethol o theatrau a chanolfannau celfyddydau

Northern Broadsides *Accidental Death of an Anarchist*

Mae cynnal a datblygu ein rhwydwaith cenedlaethol o theatrau a chanolfannau celfyddydau, gan sicrhau fod ganddynt gyfarpar ac adnoddau da, o bwys hanfodol i ddatblygiad y celfyddydau perfformio ledled Cymru. Ein theatrau a'n canolfannau celfyddydau yw'r ddolen gyswllt rhwng cyflwyniad a datblygu cynulleidfa. Yn aml, dyma'r mannau lle gall cymunedau lleol gymryd rhan yn y celfyddydau perfformio, naill ai trwy weithgareddau a redir yn broffesiynol neu trwy gyfranogi mewn grwpiau a sefydliadau amatur.

Mae'r rhwydwaith ledled Cymru yn cwmpasu theatrau a chanolfannau celfyddydau graddfa fach, canolig a mawr. Mae rhai â'r gallu i gynhyrchu, mae rhai'n symud yn gynyddol i mewn i bartneriaethau gyda chynhyrchwyr, ac mae gan rai ymrwymiad cryf i ddatblygu'r celfyddydau.

Ar raddfa fwy, mae gan theatrau yn y trefi a'r dinasoedd broffil rhanbarthol, ac un cenedlaethol neu ryngwladol weithiau; ar y lefel ganolig a bach, ffocws y theatr fydd gwasanaethu dalgylch mwy lleol. Mae'n bur debygol, fodd bynnag, y bydd y theatrau hyn yn cyflwyno rhaglen o berfformiadau o ansawdd uchel o Gymru, gweddill y DU a chwmnïau rhyngwladol fel rhan o'u gweithgaredd beunyddiol.

Ar y raddfa lai, mae'r cynllun Noson Allan yn caniatáu i bobl gael profiad o gerddoriaeth, drama a dawns yn eu canolfannau cymuned a'u neuaddau pentref. Mewn gwlad fel Cymru, mae hwn yn gyfleuster hanfodol.

Mae'r fath rwydwaith creadigol a chefnogol yn hanfodol o ran gwireddu polisïau a strategaethay LlCC a CCC parthed mynediad, ansawdd, ffurf ar gelfyddyd a datblygu cynulleidfa. Heb fodolaeth theatrau a chanolfannau celfyddydau wrth galon cymunedau, byddai llawer o bobl wedi eu hamddifadu o'u hawl i gyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydol. Am resymau'n ymwneud â daearyddiaeth, cludiant, hanes a diwylliant, mae pobl yn ymuniaethu'n gryf â'u theatr neu ganolfan gelfyddydau leol, ac yn anfodlon teithio y tu hwnt i'w hardal leol i'r diben hwn, ac eithrio am brofiad ar raddfa sylweddol wahanol.

Mae datblygiad llawer o'r rhwydwaith hwn wedi bod yn broses organig wedi ei symbylu gan anghenion a gofynion lleol ac wedi ei chefnogi gan gymunedau lleol. Er na chafodd y rhwydwaith ei sefydlu o ganlyniad i ddatganiad strategol hollgwmpasog, y mae, serch hynny, yn cynrychioli strwythur o ddarpariaeth sy'n seiliedig ar brofiad o angen, uchelgais am ddatblygu, ac ymrwymiad gan gymunedau a chyllidwyr. Mae'n rhwydwaith priodol o ran maint, cwmpas ac amrywiaeth i allu denu pobl ledled Cymru i ymgysylltu â'r celfyddydau fel cynulleidfaoedd neu gyfranogwyr.

Ym mis Ebrill 2008 cynhaliodd Creu Cymru dri chyfarfod rhanbarthol o'i aelodau ledled Cymru i ystyried swyddogaeth a datblygiad pellach sector y theatrau a'r chanolfannau celfyddydau. Gyda chefnogaeth gan Gyngor y Celfyddydau, comisiynodd Elan Closs Stephens i gadeirio'r cyfarfodydd a chyflwyno adroddiad ar y drafodaeth a ddeilliodd ohonynt. Y canlyniad oedd *Papur Sefyllfa ar Theatrau a Chanolfannau Celfyddydau Ledled Cymru*. Dosbarthwyd y papur i'r aelodau ac i Gyngor Celfyddydau Cymru ym mis Gorffennaf 2009. Cyfrannodd ei ganlyniadau at *Dychmygwch – Gweledigaeth ar gyfer y Celfyddydau yng Nghymru* gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Nodai'r papur fod theatrau a chanolfannau celfyddydau:

- yn ffurfio rhwydwaith rhydwelïol sy'n cynnal, meithrin ac yn dosbarthu cynnwys creadigol i bobl Cymru.

- yn datblygu cynulleidfa amrywiol, yn darparu mynediad a chynhwysiant, ac yn meithrin teyrngarwch.

- yn darparu cefnogaeth weithredol i ddatblygiad artistiaid creadigol.

- yn fothau creadigol ac yn ganolbwynt y gymuned leol.

- yn adnoddau poblogaidd y gwneir defnydd mawr ohonynt gan bobl yng Nghymru. Yn flwyddyn ariannol 2008-09, roedd y theatrau a chanolfannau y celfyddydau wedi gwerthu dros 2.5 miliwn o dicedau berfformiadau.

- yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau y gall pobl o bob oed a gallu gyfranogi ynddynt.

Cafodd y papur hefyd y dylid ystyried theatrau a chanolfannau celfyddydau:

- yn bartneriaid strategol yn narpariaeth Cyngor Celfyddydau Cymru o fynediad, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol.

- yn offeryn i gynyddu cynulleidfaoedd ar gyfer cwmnïau newydd, meithrin perthynas y gynulleidfa â chwmnïau mwy sefydliedig, a datblygu'r ffurf ar gelfyddyd.

- yn fodd cyflwyno, trwy gydweithrediad, waith o ansawdd a rhagoriaeth.

Yn ogystal â darparu buddiannau diwylliannol, addysgol a chymdeithasol i gymunedau Cymru, mae'r sector yn cyfrannu'n helaeth at gyflogaeth, ac mae'n cynnig budd ariannol i weddill y gymuned mewn meysydd fel twristiaeth, llety a gwasanaethau.

Mae cynnal a datblygu rhwydwaith o theatrau a chanolfannau celfyddydau, y mae eu hadeiladau yn raenus ac yn cael eu cadw mewn cyflwr da, yn effeithlon i'w rhedeg, ac â'r offer technegol angenrheidiol, yn allweddol i ddatblygu strategaeth ar gyfer cyflwyno'r celfyddydau perfformio ledled Cymru. Mae hynny'n galw am arolwg brys o ofynion cyfalaf a chynllun cyfalaf sy'n nodi'r blaenoriaethau allweddol.

Bydd y strategaeth hon yn llywio datblygiad sector sydd am broffesiynoli ei weithgareddau ymhellach, cynyddu ei gynulleidfaoedd, manteisio ar gyfleoedd masnachol, a chyflawni mwy am y cyllid cyhoeddus a fuddsoddir ynddo.

Bydd y strategaeth yn cydnabod ac yn cadw cymeriad unigol pob theatr neu ganolfan gelfyddydau tra'n cydnabod gwerth clystyrau o theatrau (mae gan rai, fel Theatrau RhCT/Theatrau Sir Gâr/Canolfannau Blaenau Gwent, reolaeth ar y cyd a/neu un polisi artistig). Er mwyn bod yn ganolog i'w cymunedau, rhaid iddynt ddarparu gwaith sy'n taro deuddeg gyda'r gymuned honno – mae cynulleidfa'n cael ei chreu oherwydd fod rhywbeth arbennig yn digwydd yno. Rhaid parhau i osod targedau unigol yn ogystal â chydweithredu er mwyn cyflawni targedau rhanbarthol a chenedlaethol. Yr amrywiaeth yma yw cryfder y rhwydwaith a byddai colli unrhyw ran o'r ddarpariaeth yn golygu na fyddai'r celfyddydau perfformio bellach yn hygyrch i Gymru gyfan.

b) Creu sector gydweithrediadol

Maddy Prior & the Carnival Band

Bu newidiadau sylweddol o fewn y sector eisoes. Ehangwyd y sail draddodiadol o gwmnïau a theatrau a gyllidir i gynhyrchu yn bennaf gan nifer cynyddol o 'theatrau cyflwyno' sy'n cynhyrchu ac yn teithio gwaith gan gwmnïau sydd eisoes yn bodoli neu gan berfformwyr a ddaeth ynghyd ar gyfer taith benodol.

Manteision y dull hwn o fynd ati yw fod y gwaith wedi ei lywio gan ofynion datblygu cynulleidfa neu ffurf neilltuol ar gelfyddyd, sydd o ganlyniad yn cynnig cyfle i gyd-farchnata a darparu cymorth technegol ar gyfer yr holl daith.

Mae gan sector gydweithrediadol swyddogaeth bwysig mewn datblygu ffurfiau ar gelfyddyd. Gyda theatrau a chanolfannau celfyddydau yn ymgysylltu gyda chyfarwyddwyr, cwmnïau ac eraill sy'n creu gwaith yn sector y celfyddydau perfformio, mae'r sector i'w weld yn unedig, yn gweithredu er budd i bawb.

Mae gwaith ar y cyd yn dod â theatrau, canolfannau celfyddydau a chrewyr ynghyd mewn partneriaethau sy'n elwa ar sgiliau a diddordebau neilltuol pob un. Gall y rhain gwmpasu amryw o fathau o gydweithio creadigol gydag amrediad cyfatebol o amcanion:

- Hyrwyddwyr unigol yn gweithio gyda'i gilydd i **gomisiynu, cynhyrchu, a hyrwyddo** taith neu raglen o deithiau sy'n bodloni meini prawf y cytunwyd arnynt ar gyfer datblygu cynulleidfa neu ddatblygu genres neilltuol. Byddai hyn hefyd yn golygu marchnata a gweinyddu ar y cyd.

- Theatrau a chanolfannau celfyddydau yn **gweithio fel cynhyrchydd** naill ai drwy eu cwmni eu hunain (ee, Sherman Cymru, Torch) neu mewn partneriaethau i gyflawni angen strategol neilltuol (ee, Mappa Mundi/ Theatr Mwldan).

- **Cydweithio hirdymor** sy'n cynnwys cyfleoedd datblygu proffesiynol, rhaglennu, trafodaeth feirniadol, hyrwyddo a marchnata ar y cyd (ee, Yr Hyrwyddydd Dyfeisgar, Hyrwyddydd yr 21ain Ganrif, Gwreiddiau'r Cymoedd).

- Cydweithio sy'n canolbwyntio ar **flaenoriaethau datblygu cenedlaethol** (ee, mentrau i ddenu teuluoedd).

Bydd theatrau a chanolfannau celfyddydau yn aml yn chwarae rhan weithredol mewn nifer o gydweithrediadau.

Mae'r ffordd hon o fynd ati yn datblygu fframwaith mwy strategol lle bydd y ddarpariaeth deithiol yn adlewyrchiad mwy cyflawn o uchelgeisiau datblygu cynulleidfa theatrau a chanolfannau celfyddydau.

Er mwyn cynyddu cyfleoedd cyflwyno a chynyddu hygyrchedd, bydd y sector yn ystyried cyfleoedd rhaglennu eraill hefyd, yn cynnwys:

- hyrwyddo digwyddiadau y tu allan i theatr neu ganolfan gelfyddydau yn defnyddio **gofodau eraill**.

- gwaith **penodol i safle**.

- y cysylltau rhithwir a gynigir gan yr oes ddigidol newydd o ran cyflwyno **perfformiadau byw ar sgrîn** (ee, National Theatre, Royal Opera).

c) Rhaglennu a chyflwyno gwaith

Mae gan theatrau a chanolfannau celfyddydau swyddogaeth guradurol gref o ran darparu cymysgedd o brofiadau ar gyfer eu cynulleidfaoedd o bob maes yn y celfyddydau perfformio - drama, dawns, cerddoriaeth, comedi, syrcas a chelf berfformio. Mae llawer ohonynt hefyd yn hyrwyddo sinema (masnachol a diwylliannol), llenyddiaeth a'r celfyddydau gweledol.

Trefnir y rhaglenni trwy ddatblygu cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli gyda chwmnïau yn ogystal â thrwy ddatblygu cysylltiadau newydd gyda chwmnïau y bydd eu gwaith yn helpu i hyrwyddo strategaethau artistig, ariannol neu ddatblygu cynulleidfa yr hyrwyddwyr. Un datblygiad mawr yw'r cynyrchiadau ar y cyd sydd wedi cynnig cyfle i hyrwyddo gwaith nad oedd ar gael yn flaenorol, ac sydd yn cynnal a datblygu rhaglennu ar draws y sector.

Y materion allweddol ar gyfer rhaglennu datblygiadol yw'r angen am:

- gynnig rhaglenni amrywiol ac esblygol mewn sawl ffurf ar gelfyddyd.

- adeiladu cynulleidfaoedd cynaliadwy ar gyfer pob ffurf ar gelfyddyd.

- i theatrau gydbwyso eu rhaglenni mewn perthynas ag ystyriaethau artistig, gan dalu sylw i lif arian, ac amcanestyniadau incwm a gwariant, a'r galw am i lawer o ganolfannau gynnig cynnyrch a fydd yn apelio at drawstoriad eang o'r gymuned.

- gynyddu i'r eithaf sgiliau a gwybodaeth rhaglenwyr theatr a marchnatwyr.

Bydd y materion hyn yn amrywio o theatr i theatr a rhwng canolfannau celfyddydau gan ddibynnu ar raddfa, dalgylch, adnoddau a gwahanol gyd-destun gweithredu – y rheini a redir gan awdurdodau lleol, y rheini sydd o fewn prifysgolion, a'r rhai dan reolaeth byrddau annibynnol.

Fodd bynnag, un pryder cyffredin yw diffyg dewis ac argaeledd cynyrchiadau teithiol o safon uchel y gellid seilio ymgyrchoedd i ddatblygu cynulleidfa ac i ddatblygu'r ffurf ar gelfyddyd o'u cwmpas. O safbwynt hunaniaeth a phroffil cenedlaethol, un anhawster i'r sector yw diffyg gwaith wedi ei greu yng Nghymru sy'n arloesol, yn ddibynadwy, ac o'r ansawdd a'r amledd priodol.

Mewn drama a dawns yn neilltuol, ysgogwyd nifer o theatrau a chanolfannau celfyddydau, a adwaenid fel cyflwynwyr yn flaenorol, i fynd yn gynhyrchwyr a chyd-gynhyrchwyr. Trwy rwydweithiau cydweithrediadol Creu Cymru maent yn gyfarwydd ag uchelgeisiau rhaglennu a strategaethau datblygu cynulleidfa y sector. Defnyddir hyn i lywio'r dewis o gynyrchiadau a chwmnïau.

Mae llwyddiant y cydweithio yma, sydd hefyd yn cefnogi'r cwmnïau i ddatblygu eu huchelgeisiau artistig, yn awgrymu gwerth dull mwy strategol a chydgysylltiedig o fynd i'r afael â chylch gorchwyl cwmnïau sy'n derbyn cymorth ariannol. Yn y ffordd yma, crëir amgylchedd cyllido sy'n annog cydweithrediad mwy strategol rhwng y cynhyrchwyr a'r cyflwynwyr, fel bod dealltwriaeth gliriach yn bodoli o'r berthynas rhwng y gwaith a gynhyrchir a datblygiad cynulleidfaoedd a ffurfiau ar gelfyddyd. Mae yna fuddiannau ariannol amlwg hefyd o safbwynt rhannu costau a mentrau cydfarchnata.

Propeller *A Midsummer Night's Dream*

ch) Datblygu cynulleidfa

Bydd rhaglenwyr a marchnatwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar ddull o fynd ati i raglennu ac i ddatblygu cynulleidfa sy'n cydnabod strategaethau artistig a masnachol y sefydliad. Yn ddelfrydol, dylai'r rhain olygu perthynas waith fwy clos gyda'r cwmnïau cynhyrchu, er mwyn creu ymdeimlad o gyd-gyfrifoldeb am ddatblygu cynulleidfa.

Gwelwyd llawer o enghreifftiau o'r buddiannau i ddatblygu cynulleidfa eisoes trwy gydweithredu ar gynllunio teithiau. Mae hyn yn cynnig cyfle i theatrau a chanolfannau celfyddydau ddylanwadu ar y dewis o gynnyrch, cefnogi cyd-fentrau datblygu cynulleidfa, a darparu teithiau o safon uchel ar sail gyson.

Mae adeiladu cynulleidfaoedd yn cymryd amser, ffocws a chydgysylltu rhwng cyflwynwyr, cynhyrchwyr a chyllidwyr. Fodd bynnag, cyflawnwyd llawer eisoes o ran sefydlu rhwydweithiau ar gyfer datblygu rhaglenni, marchnata ac adeiladu cynulleidfa ymhlith aelodau Creu Cymru (ee, consortia ffurfiau ar gelfyddyd Creu Cymru; Yr Hyrwyddydd Dyfeisgar; Hyrwyddydd yr 21ain Ganrif; Gwreiddiau'r Cymoedd)

Mae'r berthynas gyda chwmnïau cynhyrchu yn hanfodol, ynghyd â dealltwriaeth pob sefydliad, yn cynnwys CCC, fod adeiladu cynulleidfaoedd yn fuddsoddiad hirdymor. Bydd unrhyw strategaeth ddatblygu cynulleidfa hirdymor yn golygu fod cwmnïau a theatrau yn gorfod meddwl yn gydweithredol ac yn strategol a fydd yn dylanwadu ar y dewis a'r ddarpariaeth o gynnyrch teithiol a gwaith arall. Yn y maes yma, mae'n bwysig fod Creu Cymru a'r sector yn gweithio ar y cyd â Chynulleidfaoedd Cymru i weithredu casgliadau eu hymchwil yn ymarferol.

d) Curadu a rheoli

Mae parhau i fuddsoddi mewn datblygiad proffesiynol a chyfleoedd hyfforddi o fudd i'r sector ei hun yn ogystal â budd cynulleidfaoedd, cynhyrchwyr a chyllidwyr.

Darperir rhaglenni hyfforddi ar gyfer y sector trwy ddarparwyr yn cynnwys Cynulleidfaoedd Cymru, ITC, TMA, AMA.

Curadu
Bydd cyfleoedd datblygu proffesiynol yn cynnwys:

- cefnogi ymweliadau unigol a grŵp â pherfformiadau, gwyliau'r DU a rhai rhyngwladol, a chynadleddau diwylliannol.

- rhaglen o symposia a thrafodaethau cenedlaethol a rhanbarthol.

- datblygu cynllun mentora ar gyfer rhaglenwyr a marchnatwyr.

Rheoli
Bydd ffyrdd o gefnogi rheolaeth ariannol yn cynnwys:

- Cefnogi mentrau i elwa i'r eithaf ar refiniw masnachol o theatrau a chanolfannau celfyddydau (ee, llogi gofodau; darparu caffi, siop lyfrau neu gyfle manwerthu arall).

- Darparu mwy o fuddsoddi ar draws y sector mewn datblygu busnes.

- Annog ffordd fwy dynamig o fynd ati i sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o gyllid ychwanegol (ee, ceisiadau ar y cyd at Ymddiriedolaethau a Sefydliadau, cefnogaeth gan fusnesau lleol). Byddai'n ehangu seiliau cyllido ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar ddim ond un neu ddwy o brif ffynonellau cyllid, ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor.

Llunir canllawiau, yn seiliedig ar arfer da, i lywio rheolaeth y rhwydwaith. Er y bydd y graddau yr eir i'r afael â hyfforddi/datblygiad proffesiynol yn dibynnu ar faint a chwmpas y theatr, y bwriad yw creu dull mwy unedig a chydgysylltiedig o ymdrin â materion rheoli ar draws y sector. Bydd hyn, yn ei dro, yn esgor ar well dealltwriaeth o'r mathau o sgiliau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r gwahanol swyddogaethau o fewn theatrau a chanolfannau celfyddydau. Bydd dealltwriaeth gliriach yn deillio hynny o statws proffesiynol pobl sy'n gweithio o fewn y sector, a strwythurau gyrfa a fydd yn denu pobl o ansawdd uchel i ymuno â'r proffesiwn yn y dyfodol.

Harnisch-Lacey Dance Theatre (ffotograff: Matt Thomas)

2. EIN GWELEDIGAETH

Sector cynhwysol, cynaliadwy ac egnïol yng Nghymru ar gyfer cyflwyno'r celfyddydau perfformio, a fydd yn golygu fod theatrau a chanolfannau celfyddydau, a chwmnïau a chynhyrchwyr a leolir yng Nghymru yn cydweithio i hyrwyddo'r amcanion o ddatblygu ffurfiau ar gelfyddyd a chynulleidfaoedd.

3. EIN BLAENORIAETHAU

Mae'r papur strategaeth hwn wedi nodi'r blaenoriaethau a ganlyn a ddylai fod wrth graidd rhaglen ymgysylltu ag iddi strwythur a ffocws a fydd yn cynnwys cyllidwyr, cynhyrchwyr, cyflwynwyr (yn cynnwys cyflwynwyr Noson Allan) a chynulleidfaoedd:

- Rhwydwaith cenedlaethol o theatrau a chanolfannau celfyddydau
- Rhaglennu a chyflwyno gwaith
- Creu sector cydweithrediadol
- Datblygu cynulleidfaoedd
- Curadu a rheoli

Bydd y rhwydwaith cenedlaethol o theatrau a chanolfannau celfyddydau yn tyfu ac yn ffynnu trwy anogaeth i gydweithredu organig yn seiliedig ar amcanion ac anghenion a rennir.

Bydd y twf hwn yn deillio o'r cyfleoedd i rannu gwybodaeth ac arbenigedd, trafod beirniadol, canfod posibiliadau o gydweithredu, a mentrau datblygu rhaglenni a chynulleidfaoedd.

Bydd y cymorth y gall ei sector ei roi i'w weithlu i ymgymryd â rhaglen o hyfforddi a datblygiad proffesiynol yn cynyddu ei gynaliadwyedd hirdymor.

4. CAMAU STRATEGOL

Bydd gan y rhwydwaith statws partner strategol gyda CCC o ran gweithredu'r strategaeth ar gyfer theatrau a chanolfannau celfyddydau yng Nghymru, fel a grynhoir yn y tabl canlynol.

EIN GWELEDIGAETH	EIN BLAENORIAETHAU	CAMAU STRATEGOL
Sector cynhwysol, cynaliadwy ac egnïol yng Nghymru ar gyfer cyflwyno'r celfyddydau perfformio, a fydd yn golygu fod theatrau a chanolfannau celfyddydau, a chwmnïau a chynhyrchwyr a leolir yng Nghymru yn cydweithio i hyrwyddo'r amcanion o ddatblygu ffurfiau ar gelfyddyd a chynulleidfaoedd.	**Y rhwydwaith cenedlaethol o theatrau a chanolfannau celfyddydau**	**<u>Categori adnoddau 1</u>** Dialog gyda Phrif Weithredydd, Cyfarwyddwyr Rhanbarthol ac uwch-swyddogion ffurfiau ar gelfyddyd CCC er mwyn cytuno ar gynllun i gynnal a datblygu'r rhwydwaith cenedlaethol Y strategaeth i'w datblygu gan y theatrau a'r canolfannau celfyddydau mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, LlCC a budd-ddeiliaid eraill Y rhwydwaith i fod yn bartner gweithredol ac ymrwymedig yn strategaethau CCC (dylid monitro'r berthynas a'i datblygu trwy gyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn rhwng y rhwydwaith a CCC) Nodi'r theatrau a'r canolfannau celfyddydau hynny sy'n gynhyrchwyr neu'n gyd-gynhyrchwyr, a'r rhai sydd â dyhead neu botensial i ddatblygu fel hyn Creu Cymru a CCC i sefydlu safon diwydiant ar gyfer cyfleusterau technegol (addas i bob graddfa o theatr a chanolfan gelfyddydau) **<u>Categori adnoddau 2</u>** Gwneud project i fapio'r sector, gan nodi cydweithrediadau presennol a rhai posibl Gwneud arolwg diwylliannol, economaidd a chymdeithasol o'r sector Gwneud archwiliad o adnoddau technegol ac adeiladau ar draws yr aelodaeth. Gall yr arolwg hwn a'i gasgliadau lywio projectau perthnasol LlCC, fel cronfa Blaenau'r Cymoedd Nodi'r rhwydwaith sy'n bodoli trwy ymchwil a fydd yn 'mapio' cydgysylltedd theatrau a chanolfannau celfyddydau a lle mae gwasanaethau a gweithgareddau datblygu rhaglennu a chynulleidfa eisoes yn cael eu rhannu Bydd y map hwn yn: • dangos cydweithrediadau sy'n bodoli • llywio trafodaethau ynglŷn â chysylltiadau posibl rhwng theatrau a chanolfannau celfyddydau lleol a rhanbarthol a datblygu clystyrau o ddiddordebau cyffredin • aroleuo enghreifftiau o arfer da **Par...**

		<u>Categori adnoddau 3</u> Buddsoddi cyfalaf yn adeiladau ac adnoddau technegol theatrau a chanolfannau elfyddydau Cymru
	Creu sector cydweithrediadol	**<u>Categori adnoddau 1</u>** Parhau i ddatblygu: • cyfleoedd i rwydweithio (ee, consortia ffurfiau ar gelfyddyd a hwylusir gan Creu Cymru); datblygiad proffesiynol (ee y cynllun Ewch i Weld) • cydweithredu (ee, cynlluniau Hyrwyddydd Dyfeisgar a Hyrwyddydd yr 21ain ganrif) • mwy o gyfwyneb rhwng cyflwynwyr a chynhyrchwyr (ee, y berthynas rhwng Creu Cymru a WAPA) **<u>Categori adnoddau 2</u>** Buddsoddi mwy yn Ewch i Weld a datblygiad proffesiynol Datblygu cyfleoedd mentora a gefeillio **<u>Categori adnoddau 3</u>** Datblygu cyfleoedd gefeillio rhwyngwladol Rhaglen hyfforddi ar gyfer unigolion a grwpiau o staff ac ymddiriedolwyr yn cynnwys hyfforddi mewn sgiliau ac mewn datblygu creu a hyrwyddo'r celfyddydau perfformio
	Rhaglennu a chyflwyno gwaith	**<u>Categori adnoddau 1</u>** Theatrau a chanolfannau celfyddydau yn datblygu perthynas â chwmnïau/cynhyrchwyr CCC a'r sector i gynnal dialog gyda chwmnïau a gyllidir ynglŷn â darparu gwaith sy'n cyflawni strategaethau datblygu ffurfiau ar gelfyddyd a chynulleidfaoedd **<u>Categori adnoddau 2</u>** Creu mecanweithiau cyllido i hwyluso mentrau cydgynhyrchu yn unol ag amcanion datblygu cynulleidfa theatrau a chanolfannau celfyddydau Cefnogi datblygiad blaenoriaethau o blith ffurfiau ar gelfyddyd, ee, datblygu partneriaeth teithio dawns ar gyfer Cymru **<u>Categori adnoddau 3</u>** Cyllid gwarantedig ar gyfer datblygu a darparu perfformio o ansawdd uchel ar sail gyson

	Datblygu cynulleidfaoedd	**<u>Categori adnoddau 1</u>** Cynyddu'r ymgysylltu rhwng Cynulleifaoedd Cymru a rhwydweithiau presennol Creu Cymru (ee consortia ffurfiau ar gelfyddyd, grwpiau hyrwyddwyr Dyfeisgar ac 21ain Ganrif) er mwyn canfod sut i weithredu canlyniadau'r ymchwil yn ymarferol **<u>Categori adnoddau 2</u>** Datblygu rhaglenni ymchwil data swyddfa docynnau a chynulleidfaoedd a fydd yn gwella dealltwriaeth y theatrau o'u cynulleidfaoedd (gyda Cynulleidfaoedd Cymru) **<u>Categori adnoddau 3</u>** Gwneud archwiliad o adnoddau marchnata aelodaeth CC a chychwyn rhaglen o fuddsoddi er mwyn cefnogi datblygu'r adnoddau hynny
	Curadu a rheoli	**<u>Categori adnoddau 1</u>** Datblygu rhwydwaith o gyfleoedd mentora a chysgodi rhwng theatrau a chanolfannau celfyddydau Datblygu partneriaethau gyda chwmnïau preifat, gan weithio o fewn eu cyfrifoldebau CCC a gydag Arts & Business Cymru i gynnig cyngor ar bartneriaethau posibl Cynhyrchu canllawiau ar arfer rheoli da a fydd yn safon i'r diwydiant **<u>Categori adnoddau 2</u>** Theatrau a chanolfannau celfyddydau awdurdodau lleol i fanteisio ar gyfleoedd rhwydweithiau fel Ysgol Haf Flynyddol Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru Cynnig cefnogaeth ariannol ar gyfer ffïoedd a diwrnodau gwaith a gollir (ar gyfer staff sy'n mynychu cyrsiau hyfforddi/cyfleoedd datblygiad proffesiynol) Manteisio ar raglenni arwain sy'n bodoli a datblygu rhaglenni gwahanol sydd wedi eu teilwra'n fwy, ynghyd ag achrediad proffesiynol (gyda mewnbwn gan Sgiliau Creadigol a Diwylliannol/Rhaglen Arweinyddiaeth Clore/AMA/ITC) Buddsoddi mewn datblygu sgiliau busnes o fewn y sector (ee, cefnogi mentrau i alluogi elwa i'r eithaf ar refiniw masnachol o theatrau a chanolfannau celfyddydau) **Par...**

		Buddsoddi mewn parhau i ddatblygu gweithlu gwybodus a phrofiadol Darparu datblygiad proffesiynol i unigolion trwy gynlluniau sy'n bodoli a thrwy ddatblygu mentora a gefeillio gyda sefydliadau llwyddiannus eraill, heb fod yn y celfyddydau o anghenraid

Creu Cymru

Cyfarwyddwr | Director
Richard Hogger

Rheolydd Datblygu | Development Manager
Deborah Keyser

Gweinyddiaeth | Administration
Yvonne O'Donovan

Creu Cymru
12 Unedau Creadigol | Creative Units
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth Arts Centre
Aberystwyth
Ceredigion
Cymru | Wales
SY23 3GL

ffôn | tel +44 (0)1970 639444

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

CEFNOGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY